# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Chwefror 2020

Amser: 10.31 - 12.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6029

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dawn Bowden AC (Cadeirydd)<br>Huw Irranca-Davies AC<br>Dai Lloyd AC<br>David J Rowlands AC |
| Tystion: | Professor Sarah Childs, Birkbeck, Prifysgol Llundain<br>Mary Sherwood, Cyngor Dinas a Sir Abertawe<br>Dr bob Watt, Athro mewn Cyfraith Etholiadol (wedi ymddeol) |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Stephen Aldhouse (Ail Glerc)<br>Gerallt Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Tom Lewis-White (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i Delyth Jewell AC am ei gwaith ar y Pwyllgor a chroesawodd Dai Lloyd AC i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Pwyllgor.

## 2 Ethol Cynulliad mwy amrywiol – sesiwn dystiolaeth ar rannu swyddi

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel.

## 3 Papurau i'w nodi

**Papur i'w nodi 1 – Tystiolaeth ysgrifenedig gan Cyswllt Amgylchedd Cymru ar gapasiti'r Cynulliad – Ionawr 2020**

**Papurau i'w nodi 2-12 – Llythyrau gan Gadeiryddion pwyllgorau ar gapasiti'r Cynulliad:**

| **Papur i'w nodi** | **Pwyllgor** |
|---|---|
| Papur i'w nodi 2 | Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu |
| Papur i'w nodi 3 | Y Pwyllgor Deisebau |
| Papur i'w nodi 4 | Y Pwyllgor Cyllid |
| Papur i'w nodi 5 | Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau |
| Papur i'w nodi 6 | Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol |
| Papur i'w nodi 7 | Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad |
| Papur i'w nodi 8 | Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Papur i'w nodi 9 | Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol |
| Papur i'w nodi 10 | Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon |
| Papur i'w nodi 11 | Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |
| Papur i'w nodi 12 | Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau |

**Papur i'w nodi 13 – Llythyr gan y Llywydd gyda gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 2 Rhagfyr 2019 – 27 Ionawr 2020**

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, a'r cyfarfodydd ar 24 Chwefror a 2 Mawrth

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ethol Cynulliad mwy amrywiol – ystyried y dystiolaeth lafar ar rannu swyddi

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Systemau a ffiniau etholiadol – y dull o weithredu'r ymchwiliad

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o weithredu ei ymchwiliad ar systemau a ffiniau etholiadol.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i fynd ar ymweliad fel rhan o’i ymchwiliad, ac i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am ganiatâd i wneud hynny.

## 7 Blaenraglen waith

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith, a chytunodd i gyhoeddi ei raglen waith ar gyfer y tymor i ddod.